# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Mehefin 2015

Amser: 09.00 - 10.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/2925

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Michael Kay (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Alan Morris (Cynghorwr Arbenigol) |

| | |
|---|---|
| | Nick Selwyn (Cynghorwr Arbenigol)<br><br>Huw Vaughan Thomas (Cynghorwr Arbenigol)<br><br>Dave Thomas (Cynghorwr Arbenigol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd y gwesteion o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Nhaleithiau Jersey.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar Fabian Way, Abertawe yn nhymor yr hydref.

**2.1 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Llythyr gan Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (4 Mehefin 2015)**

**2.2 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (15 Mehefin 2015)**

**2.3 Diwygiad Lles: Gwybodaeth ychwanegol gan Cartrefi Cymunedol Cymru**

**2.4 Diwygiad Lles: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**2.5 Diwygiad Lles: Llythyr gan June Milligan (18 Mehefin 2015)**

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Gofal heb ei drefnu

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch nifer o faterion yr hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt. Ar ôl cael ymateb, bydd yr Aelodau'n trafod a ydynt am gynnal sesiwn dystiolaeth arall ar ofal heb ei drefnu gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

## 5 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law am lywodraethu byrddau iechyd yn y cyfarfod ar 16 Mehefin.

5.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion a nodwyd gan yr Aelodau. Ar ol cael y wybodaeth hon, bydd y clercod yn paratoi adroddiad drafft ar lywodraethu byrddau iechyd ac yn nodi'r problemau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel astudiaeth achos.

## 6 Diwygiad Lles: Trafod y materion allweddol

6.1 Trafododd yr Aelodau y papur materion allweddol ac awgrymodd nifer o faterion yr hoffai eu gweld yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

6.2 Cytunodd yr Aelodau i ofyn am gopi o'r fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai Dewisol gan Lywodraeth Cymru.

## 7 Consortia Addysg Rhanbarthol: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Cafodd yr Aelodau friff gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a nodwyd fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi mynegi diddordeb yn cynnal ymchwiliad i'r mater.

7.2 Nododd yr Aelodau y bydd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gael ym mis Gorffennaf.